LGBC6M/2002

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 3ydd MEDI 2002 AM 9.00am YN NHŶ CARADOG

Presennol:

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. D Carr

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 9fed Gorffennaf 2002.

1.1 **Cytunwyd** ar y cofnodion hyn.

2. Materion yn Codi.

2.1 Nododd yr Ysgrifennydd nad oedd y siaradwyr ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) wedi eu dewis yn derfynol ar hyn o bryd. Gwahoddwyd sawl un i siarad yn y CCB a gofynnwyd am ateb erbyn 1af Medi 2002. Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r rhai a wahoddwyd wedi ymateb erbyn y dyddiad hwnnw. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw ddatblygiadau ynglŷn a siaradwr ar gyfer y CCB.

3. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwmtwrch – Ystyriaethau yn dilyn Ymweliad Safle

3.1 Tynnodd Mr Halsall sylw'r Comisiwn at y ffaith fod yr arolwg o'r ffiniau yn ardal Cwmtwrch wedi datblygu mewn ffordd a oedd wedi amlygu dwy ardal i gynnal arolwg ohonynt, sef y ffin yn ardal Cwmtwrch rhwng Castell-nedd Port Talbot a Phowys a'r ffin yn ardal Cwmllynfell rhwng Castell-nedd Port Talbot a Chaerfyrddin. Awgrymodd y dylai'r Comisiwn bellach ystyried y ddwy ardal hyn ar wahân fel arolygon gwahanol a chynhyrchu Cynigion Drafft ar wahân ar gyfer y ddwy. **Cytunwyd** y byddai'r arolwg o'r ffin yn ardal Cwmtwrch yn cael ei drin fel dau arolwg ar wahân a fyddai'n cwmpasu'r ardaloedd a nodwyd.

3.2 Ystyriodd y Comisiwn ardal Cwmtwrch Isaf yn sgil eu hymweliad safle y diwrnod blaenorol. Nodwyd ganddynt fod y ffin bresennol yn anfoddhaol gan ei bod yn rhannu anheddiad Cwmtwrch Isaf. Ystyriai'r Comisiwn fod y cynnig arfaethedig i adlinio'r ffin i ddilyn afon Twrch, a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys yn ymddangos yn fwy rhesymegol ac y byddai'n arwain at ffin Awdurdod Lleol mwy diffiniedig. Nodwyd hefyd fod rhan fwyaf o boblogaeth Cwmtwrch Isaf wedi'i lleoli o fewn Sir Powys ar hyn o bryd.

3.3 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi gwrthwynebu i'r ffin gael ei hadlinio i ddilyn yr afon gan y byddai'n arwain at drosglwyddo Ystad Ddiwydiannol y Gurnos o'u hawdurdod i Sir Powys. Roedd y Cyngor yn bryderus y byddai unrhyw symud o'r fath yn cael effaith andwyol ar arian Amcan 1 ar gyfer Ystad Ddiwydiannol y Gurnos. Datganodd Mr Halsall yn dilyn cysylltu â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru y Cynulliad Cenedlaethol ei fod wedi cadarnhau na fyddai trosglwyddo'r Ystad Ddiwydiannol o Gastell-nedd Port Talbot i Bowys yn effeithio ar ei statws o ran arian Amcan 1.

3.4 Mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ei bryder hefyd y byddai adlinio'r ffin yn symud llawer o aneddiadau yng Nghwmtwrch Isaf o Gymuned Ystalyfera a oedd yn gymwys ar gyfer y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, tynnodd Mr Halsall sylw at y ffaith y câi'r aneddiadau hyn eu trosglwyddo i Gymuned Ystradgynlais a oedd hefyd yn gymwys ar gyfer cymorth Cymunedau yn Gyntaf. Nododd Mr Halsall y byddai 292 o etholwyr yn cael eu trosglwyddo o Gastell-nedd Port Talbot i Bowys o ganlyniad i'r cynnig hwn.

3.5 **Cytunwyd** y byddai Cynigion Drafft y Comisiwn yn cynnig adlinio'r ffin bresennol i ddilyn afon Twrch.

3.6 Ystyriodd y Comisiwn y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell yn sgil eu hymweliad safle y diwrnod blaenorol. Nododd Mr Halsall ei fod, fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol, wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn iddynt egluro eu cynigion i adlinio'r ffin yng Nghwmtwrch Uchaf ac Ystrad Owen ac yn gofyn a oeddent wedi ystyried adlinio'r ffin i ddilyn afon Llynfell o Ystrad Owen i'r lle y mae'n cwrdd âg afon Twrch. Derbyniwyd ateb gan y Cyngor yn cadarnhau eu bod yn derbyn fod rhinweddau i gynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin i ddilyn afon Llynfell.

3.7 Derbyniwyd gohebiaeth hefyd gan Gyngor Cymuned Cwmllynfell yn cynnig uno ward Llynfell yng Nghymuned Chwarter Bach, ac eithrio Rhosaman, â Chymuned Cwmllynfell i ffurfio un cymuned. Teimlai'r Cyngor y dylai'r gymuned newydd hon gael ei chynnwys o fewn Sir Gaerfyrddin. Cyflwynodd Mr Halsall bapur a oedd yn dangos effaith trosglwyddiad o'r fath ar etholaeth y ddau awdurdod. Ystyriai Mr Roberts ei bod yn ymddangos fod gan y Cyngor Cymuned sail dda i'w huniad arfaethedig er nad oedd yn glir ym mha awdurdod lleol y dylid gosod y gymuned newydd gan mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael o ran darparu gwasanaethau. Nododd hefyd y dylai'r Comisiwn fod yn ystyriol o ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd wedi ei lleoli i'r gogledd o Gymuned Chwarter Bach. Byddai trosglwyddo'r ardal i Gastell-nedd Port Talbot yn golygu y byddai rhan o'r Parc Cenedlaethol yn dod o fewn awdurdod lleol ychwanegol gyda'r canlyniad y byddai gofynion gweinyddol yn cael eu gosod ar Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot. Ystyrid mai dim ond pe diwygid y cynnig i eithrio ardal y Parc Cenedlaethol y gellid mabwysiadu cynnig Cyngor Cymuned Cwmllynfell gyda'r gymuned newydd yn cael ei gweinyddu gan Gastell-nedd Port Talbot.

3.8 **Cytunwyd** y câi Cynigion Drafft eu cyhoeddi yn awgrymu y dylid adlinio'r ffin yn ardal Cwmtwrch Uchaf ac Ystrad Owen i ddilyn afon Llynfell. **Cytunwyd** y byddai'r

Cynigion Drafft yn nodi cynnig Cyngor Cymuned Cwmllynfell ond y byddent hefyd yn mynegi pryder am yr ardal eang sydd o dan sylw ac yn gwahodd sylwadau pellach.

4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach, Castell-nedd Port Talbot – Crynodeb o Sylwadau.

4.1 Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cam cyntaf o'r arolwg ac yn sgil eu hymweliad safle â'r ardal y diwrnod blaenorol. Yn ystod yr ymweliad safle nododd y Comisiwn nad yw'r ffordd sy'n cysylltu Brookfield a Waunceirich yn cael ei rhwystro gan byst, er bod darpariaeth ar gyfer gosod pyst yn y ffordd at y diben hwnnw. Nodwyd ganddynt hefyd yr arwydd yn nodi mai dim ond ar gyfer cerbydau argyfwng y ceir mynediad ar hyd y ffordd.

4.2 Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r gwaith adeiladu sy'n cael ei gynnal yn Mill Race ble yr ymddengys ei fod yn ymestyn yr ardal breswyl bresennol ar draws y ffin a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Dyffryn Clydach. Nodwyd y gallai'r datblygiad arwain at gysylltiadau ffordd newydd rhwng Brookfield a gweddill Blaenhonddan.

4.3 Nid oedd y Cadeirydd o'r farn ei bod yn briodol cynnal arolwg o'r ardal tra roedd datblygiad preswyl Mill Race yn mynd rhagddo. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gael gwybodaeth am unrhyw gysylltiadau arfaethedig rhwng yr ardal breswyl bresennol a'r datblygiad ym Mill Race gan ofyn am ymateb erbyn mis Hydref. Gwneir cais i'r Cyngor hefyd am wybodaeth am y defnydd o byst fel rhwystrau i'r ffordd sy'n cysylltu Brookfield a Waunceiriach. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gynghorau Cymuned Dyffryn Clydach a Blaenhonddan yn eu hysbysu o weithgaredd y Comisiwn.

5. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Cymunedau Amrywiol yn Ninas a Sir Caerdydd – Asesiad o'r Cynigion

Ystum Taf a'r Eglwys Newydd

5.1 Nododd Mr Halsall fod ymweliad safle o'r ardal wedi cael ei gynnal a ddangosodd fod ardal Silver Birch Close yn wahanol i'r ardal gyfagos yn Ystum Taf a bod ganddi fwy yn gyffredin â'r ardal gyfagos yn yr Eglwys Newydd. **Derbyniodd y Comisiwn** gynnig y Cyngor ar gyfer adlinio'r ffin gymunedol.

Llanisien a Llys-faen

5.2 Nododd Mr Halsall fod yr ymweliad safle wedi dangos fod y ffin gymunedol bresennol yn rhedeg drwy ardal o dai newydd ac nad yw wedi ei diffinio'n glir. Roedd yr adliniad a gynigiwyd gan y Cyngor yn dilyn llwybr sydd wedi ei ddiffinio'n glir. **Derbyniodd y Comisiwn** gynigion y Cyngor ar gyfer adlinio'r ffin gymunedol.

Trelái a Sain Ffagan

i) Nant y Drope

5.3 Nododd Mr Halsall fod ymweliad safle wedi dangos fod y ffin a gynigiwyd gan Gyngor Sir Caerdydd yn foddhaol ac yn dilyn llwybr sydd wedi ei ddiffinio'n glir. **Derbyniodd y Comisiwn** gynigion y Cyngor ar gyfer adlinio'r ffin gymunedol.

ii) Lon Werdd

5.4 Nododd Mr Halsall fod ymweliad safle wedi dangos fod y ffin a gaiff ei chynnig gan Gyngor Sir Caerdydd yn anfoddhaol gan nad yw yn dilyn llwybr sydd wedi ei ddiffinio'n glir. Fodd bynnag, roedd wal frics a fyddai'n gweithredu fel ffin wedi ei diffinio'n glir rhwng Trelái a Sain Ffagan yn ardal Lon Werdd Close. Nododd y Comisiwn y gwrthwynebiad i'r adliniad gan drigolion ac eraill. Nodwyd mai dim ond trwy Drelái y gellid cael mynediad i Lon Werdd Close. Nododd y Comisiwn na fyddai newid y ffin gymunedol yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol i'r ardal ond y byddai'n fanteisiol o ran mynediad i orsaf bleidleisio. **Derbyniodd y Comisiwn** gynigion gan y Cyngor i drosglwyddo Lon Werdd Close o Sain Ffagan i Drelái. **Cytunodd y Comisiwn** y dylai cynnig y cyngor i adlinio'r ffin gymunedol gael ei addasu i gynnwys Lon Werdd Close yn unig o fewn Cymuned Trelái.

6. Cynllun Cyhoeddiadau Drafft.

6.1 Cymeradwyodd y Comisiwn y cynllun Cyhoeddiadau Drafft. **Cytunwyd** y câi hwn nawr ei anfon at y Comisiynydd Gwybodaeth.

7. Dyfodol Dwyieithog – Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

7.1 Nododd y Comisiwn y Datganiad Polisi.

8. Adroddiad Blynyddol Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd ar gyfer Cymru.

8.1 Nododd y Comisiwn Adroddiad Blynyddol Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru.

9. Amserlen ar gyfer Cynnal Arolygon.

9.1 Cytunodd y Comisiwn ar yr Amserlen ar gyfer Cynnal Arolygon yn amodol ar ddiwygiad i ystyried rhannu arolwg Cwmtwrch.

10. Adroddiad Blynyddol.

10.1 Cytunodd y Comisiwn ar yr Adroddiad Blynyddol.

11. Unrhyw Fater Arall.

11.1 Cyfarfu'r Comisiwn ag Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y bore hwnnw. Trafodwyd amrywiaeth o faterion gan gynnwys

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn, effaith bosibl yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn dros Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru ar y Comisiwn a'r anawsterau oedd yn bodoli wrth osod y cysylltiad TG rhwng swyddfeydd y Comisiwn a'r Cynulliad Cenedlaethol.

11.2 Trefnwyd y dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf ar gyfer y 10fed Hydref 2002 yn Hwlffordd a'r 27ain Tachwedd 2002.